

CDLI 2, Cynllun Adneuo 2 – Gwallau yn y testun Cymraeg

I gael y newyddion diweddaraf am yr Atodiad edrychwch ar dudalen y wefan:

<https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol>

Tudalen 3

'Y Cynghorydd Jacob Williams, Arweinydd y Cabinet dros Wasanaethau Cynllunio a Rheoleiddio, Cyngor Sir Penfro'

Dileu'r gair 'arwain' a disodli 'Aelod'.

Tudalen 107

Polisi GN 7 – mewnosoder y canlynol:

GN 7 Barics Cawdor gan gynnwys hen Faes Awyr Breudeth

Bydd defnydd gweithredol fel canolfan filwrol yn parhau ar ddechrau cyfnod y cynllun. Unwaith y daw defnydd milwrol o'r safle i ben, bydd defnydd y ddwy ran benodol o'r safle yn y dyfodol yn cael ei ystyried ar y sail ganlynol yn amodol ar eu cydnawsedd â pholisiâu eraill y cynllun ac unrhyw ddefnydd milwrol a gedwir a defnydd hedfan sifil a/neu filwrol (gan gynnwys yr HRDF):

1. Ar gyfer arwynebedd y maes awyr (a elwir hefyd yn ardal 'y tu allan i'r weiren'), tua 216 hecтар:
 - a) Defnydd amaethyddol gyda stiwardiaeth amgylcheddol gysylltiedig;
 - b) Stiwardiaeth amgylcheddol tir nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol;
 - c) Araeau ffotofoltäig solar, yn amodol ar fodloni'r gofynion polisi a nodir mewn manau eraill yn y cynllun a rhoi ystyriaeth ddyledus i'r effaith bosibl ar y dirwedd ar Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r gofynion diogelu sy'n gysylltiedig â'r HRDF. Mae rhan o'r safle 'y tu allan i'r weiren' wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer araeau ffotofoltäig solar gan bolisi GN 5, ond mae'r potensial ar gyfer defnydd o'r fath hefyd yn bodoli ar rannau eraill o'r safle 'y tu allan i'r weiren'.
 - d) Twristiaeth sy'n seiliedig ar weithgareddau a thwristiaeth sy'n seiliedig ar gadwraeth a fyddai'n cael effaith isel, yn gysylltiedig â chanolfannau ar gyfer gweithgareddau o'r fath ar safle'r barics ('o fewn y weiren').
 - e) Gwella llwybrau cerdded a beicio newydd o fewn y safle a chreu rhai newydd os oes angen, ac o bosibl eu cysylltu â'r rhwydwaith presennol y tu hwnt i ffin y safle.
2. Ar gyfer arwynebedd y barics (a elwir hefyd yn ardal 'o fewn y weiren'), tua 62 hecтар:
 - a) Rhyddhau tai presennol y Weinyddiaeth Amddiffyn (stoc tai anheddau cyplau priod yn bennaf) i'r farchnad.
 - b) Datblygiad preswyl newydd ar raddfa fach i ategu tai presennol y Weinyddiaeth Amddiffyn, gyda chyfraniad Cymdeithasau Tai ac Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol, os oes angen, ac o bosibl yn cynnwys cyfleoedd hunanadeiladu. Ni ddylai graddfa unrhyw ddarpariaeth newydd fod yn fwy na'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn dderbyniol mewn Pentref Gwasanaethau CDLI 2. Fel mewn rhannau eraill o ardal y cynllun, disgwylir y bydd elfen o dai fforddiadwy yn cael ei chynnwys ar unrhyw gynlluniau adeiladu newydd, ar y gyfradd o 10% a ddefnyddir mewn Pentrefi Gwasanaeth cyfagos.
 - c) Dymchwel yr adeiladau nad oes eu hangen mwyach yn raddol a lliniaru ar unrhyw halogiad cysylltiedig o adeiladau a thir.
 - d) Cynigion cyflogaeth ar raddfa fach, sy'n gyson â pholisi GN 8 ac yn y cyddestun y bydd y tir hwn yn cael ei drin yn yr un modd ag o fewn Ffin Anheddiad CDLI 2.

- 5.19 Defnyddiwyd Maes Awyr Breudeth fel gorsaf loeren y Llu Awyr Brenhinol rhwng 1944 a 1992 a chafodd ei drosglwyddo i'r Fyddin Brydeinig a'i ailenwi'n Farics Cawdor ym 1995. Mae'r Gatrawd 14 Signal ac uned ryfela electronig y fyddin yn ei feddiannu ar hyn o bryd. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnig symud o'r safle fesul cam a chael gwared arno o 2028. Bydd defnydd gweithredol Barics Cawdor, gan gynnwys hen Faes Awyr Breudeth, yn dod i ben yn ystod cyfnod y cynllun. Mae'r cynigion presennol yn rhagweld y bydd y safle'n cael ei gau fesul cam a'r bwriad yw cael gwaredu arno o 2028. Prynwyd y safle'n orfodol yn wreiddiol, ac o ganlyniad bydd Rheolau Crichel Down yn berthnasol ar rannau o'r safle, sy'n nodi'r modd y mae'n rhaid gwaredu ar y safle. Mae'n bosibl felly y bydd yn rhaid cynnig rhai rhannau o'r safle yn ôl i'r perchnogion gwreiddiol (neu eu holynwyr) am bris y farchnad ac mae gofynion hefyd i wirio a yw adrannau eraill o'r llywodraeth yn dymuno defnyddio'r tir.
- 5.20 Yn 2015, comisiynodd Cyngor Sir Penfro wasanaeth ymgynghori Arup i baratoi adroddiad ar ddefnydd y safle yn y dyfodol. Gwnaethpwyd y comisiwn ar ran Partneriaeth Ymlaen (Rhaglen Datblygu Gwledig) Sir Benfro a'r Sefydliad Seilwaith Amddiffyn a chanolbwyntiodd ar yr opsiynau ar gyfer defnyddio Barics Cawdor a chyn Ganolfan Awyr Breudeth yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn cyfuno astudiaeth waelodlin, opsiynau ar gyfer defnydd yn y dyfodol a mecanweithiau cyflawni posibl, gyda pheth ymchwil i'r farchnad a dadansoddiad manylach o broblemau ac opsiynau.
- 5.21 Er y lluniwyd yr adroddiad sawl blwyddyn yn ôl bellach, mae ei gasgliadau yn parhau i fod yn ddilys ac wedi darparu sylfaen ar gyfer y dull polisi safle-benodol a nodir yn y polisi hwn. Mae'r casgliadau hynny wedi'u gosod yn y cyd-destun a ddarparwyd gan bolisiâu a chynigion y CDLI newydd, yn enwedig o ran maint y datblygiad y gellid ei ragweld ar gyfer ardal yr hen farics (yr elfen 'o fewn y weiren' o'r safle).
- 5.22 Trafodwyd y posibilrwydd o ddefnyddio rhannau o'r safle yn y dyfodol ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy ac mae Cyngor Sir Penfro wedi dyrannu tir ar gyfer arae ffotofoltäig solar o dan bolisi GN 5 ar ran o safle'r hen faes awyr. Roedd sail y cynnig hwnnw wedi'i gynnwys yn adroddiad Arup, ond mae'r union ffiniau wedi'u haddasu i adlewyrchu'r gofynion diogelu sy'n gysylltiedig â'r HRDF. Mae'n bosibl y bydd potensial ar gyfer rhagor o araeau solar ffotofoltäig, yn enwedig ar safle'r hen faes awyr, yn amodol ar ystyried materion megis presenoldeb yr HRDF ac agosrwydd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
- 5.23 Y brif dechnoleg ynni adnewyddadwy daearol arall yw ynni gwynt. Comisiynodd Cyngor Sir Penfro Simon White i ymchwilio i'r potensial ar gyfer ynni gwynt ar y safle hwn ac adrodd yn ôl i'r cyngor. Cofnodir canlyniad y gwaith hwn mewn papur sylfaen tystiolaeth o'r enw 'Maes Awyr Breudeth - Arfarniad Tirwedd a Gweledol o Ddatblygiad Ynni Gwynt Posibl - Mehefin 2021'. Daw paragraff 7.23 i'r casgliad: 'Ar y cyfan, er y gallai datblygiadau tyrbinau gwynt llai o faint hyd at 35m fod yn bosibl, yn amodol ar asesiad pellach, nid ystyrir ei bod yn ffurf ddymunol o ynni adnewyddadwy ar y safle hwn o ran tirwedd, morlun ac effeithiau gweledol ar Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro. O hynny, mae'n ymddangos y gallai rhywfaint o ddatblygiadau tyrbinau gwynt cyfyngedig fod yn bosibl, ond nid yw'n cael ei ffafrio ar y safle hwn. Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith ar gyfer ystyried defnydd y safle cymhleth hwn yn y dyfodol. Mae'n adlewyrchu potensial y safle ar gyfer ei aildefnyddio a hefyd y cyfyngiadau ar yr aildefnyddio hwnnw, gan gynnwys ei leoliad mewn rhan o Sir Benfro sy'n bell o'r rhwydwaith cefnffyrdd ac unrhyw gysylltiadau rheilffordd ac ansicrwydd ynghylch diddordeb y farchnad a defnyddwyr terfynol posibl. Yn y tymor byr i'r tymor canolig, rhaid hefyd

ystyried y prosiect addasu arfordirol gerllaw yn Niwgwyl, a fydd yn gofyn am ddargyfeirio'r A487 oddi wrth y banc graean. Er mwyn hwyluso'r uchod, bydd y cyngor yn paratoi briff datblygu ar gyfer defnyddio'r safle yn y dyfodol, gan weithio gyda'r Sefydliad Seilwaith Amddiffyn / y Weinyddiaeth Amddiffyn a chyda phartïon eraill â diddordeb, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Byddai hwn wedyn yn cael ei fabwysiadu gan y cyngor fel Canllaw Cynllunio Atodol.

Tudalen 145

Polisi GN20

Dileer y cofnodion yn nau flwch olaf y tabl

Swm Cymudedig		12.5%	15%	20%	25%	30%
Swm Cymudedig	25%	25%	30%	35%	35%	35%

Disodler â

Swm Cymudedig		12.5%	15%	20%	25%	30%
Swm Cymudedig	25%	25%	30%	35%	40%	

Tudalen 147

Polisi GN 20 – Tabl Band 1

Dileer pedwaredd res y tabl

Gogledd	Ambleston, Casmorys, Croescoch, Abergwaun, Ffos Las, Gwdig, Hayscastle Cross, Treletert, Little Newcastle, Llan-lwy, Llangolman, Llanrhian, Maenclochog, Mathri, Panteg, Penycwm, Penygroes Villas, Pont-yr-Hafod, Cas-mael, Square & Compass, St Nicholas, Trecwn, Treffynnon, Tregarn, Tregarn Owen, Walton East, Casblaidd, Woodstock
---------	--

Disodler â

Gogledd	Ambleston, Casmorys, Croescoch, Abergwaun, Ffos Las, Gwdig, Hayscastle Cross, Treletert, Little Newcastle, Llan-lwy, Llangolman, Llanrhian, Maenclochog, Mathri, Panteg, Penycwm, Penygroes Villas, Pont-yr-Hafod, Cas-mael, Square & Compass, St Nicholas, Trecwn, Treffynnon, Tregarn, Tregarn Owen, Walton East, Casblaidd, Woodstock
---------	--

Polisi **GN 20** Tabl Band 2

Dileer pedwaredd res y tabl

Ardal Doc Penfro	Cosheston, Llandyfái, Doc Penfro, Slade Cross, Upper Nash.
------------------	--

Disodler â

Ardal Doc Penfro	Cosheston, Doc Penfro, Slade Cross, Upper Nash.
------------------	---

Tudalen 148

Polisi GN 20 Tabl Band 3

Dileer pumed res y tabl

Ardal Penfro	Hundleton, Maiden Wells, Penfro, St Tywnells
--------------	--

Disodler â

Ardal Penfro	Hundleton, Llandyfai, Maiden Wells, Penfro, St Tywnells
--------------	---

Tudalen 154

Polisi GN 24 Safle Sipsiwn Teithwyr Dyraniadau Prif Polisi – frawddeg olaf

Amnewid

'Ennill net dangosol o rifau traw yn y tri safle: 55'

â

'Ennill net dangosol o rifau caeau yn y pedwar safle: 55'

Tudalen 153

Polisi GN 23

Dileu 3ydd rhes o dabl

SSA/089/LDP2/02	I'r dwyrain o Park House, Dinbych-y-pysgod	0.25	Estyniad i'r cyfleuster preswyl/nyrsio
-----------------	--	------	--

Disodler â

SSA/089/LDP2/01	I'r dwyrain o Park House, Dinbych-y-pysgod	0.25	Estyniad i'r cyfleuster preswyl/nyrsio
-----------------	--	------	--

Tudalen 175

Polisi GN 34 – dileer y polisi

Disodler â

GN 34 Addasu neu newid defnydd adeiladau traddodiadol ac ehangu, neu newid, adeiladau traddodiadol a addaswyd yn flaenorol y tu allan i ffiniau aneddiadau

- A Caniateir adnewyddu, addasu neu newid defnydd adeiladau traddodiadol y tu allan i unrhyw ffin anheddiad, ar yr amod y bodlonir y meini prawf canlynol:
1. Ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig â chyflogaeth (ac eithrio llety gwyliau):
 - a) Mae'r adeilad yn gallu cynnal y defnydd newydd o safbwynt ffisegol, ac unrhyw ofynion cysylltiedig, heb waith addasu neu ymestyn sylweddol
 - b) Gellir darparu storfa allanol, gwasanaethau newydd, gwaith mynediad, ffensys, waliau neu adeileddau eraill sy'n gysylltiedig â defnyddio'r adeilad neu ei gwrtil, heb niweidio gosodiad y dirwedd
 - c) Mae cynigion addasu yn parchu'r dirwedd ac arddulliau a deunyddiau adeiladu lleol
 2. Ar gyfer defnydd preswyl, llety gwyliau neu unedau byw a gweithio:
 - a) Mae'r adeilad yn draddodiadol o ran ei natur a'i gymeriad
 - b) Mae'r adeilad yn gallu cynnal y defnydd newydd o safbwynt ffisegol, ac unrhyw ofynion cysylltiedig, heb waith addasu, ehangu neu ailadeiladu sylweddol
 - c) Mae unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu cadw i'r graddau lleiaf posibl, gellir eu gwneud heb effeithio'n andwyol ar gymeriad yr adeilad na'i leoliad, ac maent yn cael eu cynnal mewn deunyddiau sy'n cydweddu a/neu'n sympathetig ac yn parchu'r dirwedd gyfagos
 - d) Gellir darparu storfa allanol, gwasanaethau newydd, gwaith mynediad, ffensys, waliau neu adeileddau eraill sy'n gysylltiedig â defnyddio'r adeilad a'i gwrtil, heb niweidio gosodiad y dirwedd na chymeriad yr adeilad
- B Caniateir ehangu neu addasu adeilad traddodiadol sydd wedi'i addasu'n flaenorol at ddefnydd cyflogaeth, defnydd preswyl, llety gwyliau neu unedau byw a gweithio, cyn belled â bod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:
- a) Mae'r gwaith ehangu neu'r gwaith newid ar raddfa gymedrol, yn parhau i fod yn ategol i'r prif adeilad, a gellir ei wneud heb effeithio'n andwyol ar gymeriad yr adeilad na'i leoliad
 - b) Fe'i hadeiladir gan ddefnyddio deunyddiau cyfatebol a/neu sympathetig ac mae o raddfa a natur sy'n dderbyniol o ran capasiti'r dirwedd ac sy'n gallu cyflawni gwelliannau amgylcheddol

Tudalen 180

Polisi GN 36

Dileer ail a thrydedd res y tabl

TS/LDP2/03	Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus	Cyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus Aberdaugleddau	Gorsaf Drenau Aberdaugleddau
TS/LDP2/04	Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus	Cyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus Hwlfordd	Gorsaf Drenau Hwlfordd

Disodler â

TS/LDP2/04	Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus	Cyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus Aberdaugleddau	Gorsaf Drenau Aberdaugleddau
TS/LDP2/05	Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus	Cyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus Hwlfordd	Gorsaf Drenau Hwlfordd